Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Basaleg
Forge Lane
Basaleg
NP10 8NF

17/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Chwefror 2026

Diolch am y croeso a gafodd y tîm ac am y ddeialog ddefnyddiol a gafwyd rhyngom yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 12 ac 13 Chwefror 2026. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion, a thrafod y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â sampl o wersi ar draws y cwricwlwm i weld disgyblion a staff yn gwneud eu gwaith.
- Cynnal arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu ar waith ochr yn ochr ag uwch arweinwyr.
- Siarad ag uwch arweinwyr am eu gwaith gwella a sut maent wedi addasu dulliau yn y ddau faes ffocws.
- Siarad ag arweinwyr canol am eu gwaith a chlywed am y manteision a'r heriau y maent yn eu profi.

## Ffocws yr ymweliad

### Pa gamau y mae'r ysgol yn eu cymryd i gryfhau ei phrosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Yn ystod yr ymweliad, clywsom am y modd yr oedd rysgol wedi ailystyried ac ailgynllunio'i phrosesau hunanwerthuso. Roedd yn ddiddorol dysgu, ar ôl camau mireinio amrywiol, sut rydych chi bellach wedi creu model sy'n anelu at ganolbwyntio'n glir ar werthuso effaith addysgu ar gynnydd disgyblion. Clywsom am benderfyniad arweinwyr i greu cylch

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

hunanwerthuso byw sydd wedi'i wreiddio mewn pennu effaith pob agwedd ar waith yr ysgol. Roedd yn ddefnyddiol nodi, trwy osod addysgu a dysgu yng nghanol y cylch hwn, eich bod o'r farn fod pob athro'n cyfrannu'n ystyrlon at wella'r ysgol.

Yn ein trafodaethau, esbonioch sut roedd arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i greu darlun cywirach o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Roedd hefyd yn ddefnyddiol clywed am eich trefniadau ar gyfer galluogi timau i graffu ar waith disgyblion yn rheolaidd, rhannu arfer effeithiol a myfyrio ar effaith strategaethau addysgu ar gynnydd disgyblion.

Nodom hefyd y camau a gymerwyd i gryfhau cydweithio rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Esbonioch chi sut mae uwch arweinwyr yn triongli tystiolaeth ac yn modelu arfer fyfyriol tra'n anelu at ddarparu craffu ac arweiniad cefnogol. Disgrifiodd arweinwyr canol sut mae'r dull hyfforddi gan uwch arweinwyr yn helpu hyrwyddo deialog broffesiynol adeiladol a myfyriol.

At ei gilydd, roedd yn ddiddorol clywed sut mae hunanwerthuso yn parhau i ddatblygu ethos o ddidwylledd ac atebolrwydd ar draws yr ysgol.

Mewn trafodaethau ag arweinwyr, rydym yn cytuno â'ch casgliad y byddai'n ddefnyddiol ystyried:

- Sut gallai arweinwyr ganolbwyntio'n fanylach ar y modd y mae strategaethau addysgu ac asesu yn sicrhau cynnydd disgyblion ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr dros gyfnod o dystiolaeth uniongyrchol?

### Sut mae'r ysgol wedi cryfhau ei dulliau i wella addysgu?

Roedd yn ddiddorol clywed sut mae eich uwch arweinwyr wedi newid dulliau'r ysgol i wella addysgu yn gyfan gwbl. Mae arweinwyr wedi ailalinio rôl y Dirprwy Gyfarwyddwr Safonau i ganolbwyntio'n fanylach ar addysgeg a sicrhau ansawdd arfer ar lefel adran. Amlinellodd arweinwyr ac athrawon y pedwar 'piler addysgeg' wedi'u llywio gan dystiolaeth sy'n sail i raglen dysgu proffesiynol yr ysgol. Mae'r 'Tudalennau Pileri' ('Pillar Pages') sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd yn darparu cymorth ymarferol a symbyliadau ar gyfer athrawon. Roedd yn ddiddorol clywed athrawon yn siarad â brwdfrydedd amlwg am nod canolog yr ysgol i wella addysgu, ac am y balchder a'r cyfrifoldeb proffesiynol a deimlant wrth ddatblygu eu harfer.

Yn ystod ein hymweliadau ag ystafelloedd dosbarth, gwelsom fod meysydd ffocws fel holi a metawybyddiaeth yn amlwg yng nghynllunio athrawon ac yn eu gwersi. Dywedodd athrawon wrthym hefyd am ymdrech yr ysgol i alluogi ei disgyblion i ddod yn ddysgwyr llwyddiannus, gwydn a chyflawn. Roedd yr athrawon hyn yn gallu disgrifio'n glir beth yw

eu rhan mewn cyflawni'r nod uchelgeisiol hwn a sut maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddir iddynt wneud hynny.

Mewn trafodaeth, amlinellodd arweinwyr agweddau ar addysgu y maent wedi nodi bod angen eu mireinio ymhellach trwy eu prosesau hunanwerthuso. Rydym yn cytuno y gallent ystyried:

- Sut orau i ddatblygu geirfa disgyblion ynghylch dysgu er mwyn iddynt allu myfyrio ar effaith addysgu ac asesu ar eu cynnydd yn well?
- Sut i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn ymateb yn fwy annibynnol i her briodol?

Diolch eto am y trafodaethau diddorol a buddiol a gawsom, ac am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/bassaleg-school-cy/

Yn gywir

L Jones

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro